Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Atebolrwydd Aelodau Unigol

## Adalw

Ionawr 2025

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Atebolrwydd Aelodau Unigol

## Adalw

Ionawr 2025

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mark Drakeford AS**
Llafur Cymru



**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... **5**

**Argymhellion** ..... **6**

**1. Cyflwyniad** ..... **7**

Ystyriaeth gychwynnol ..... 8

Safbwynt Llywodraeth Cymru ..... 9

Terminoleg ..... 10

**2. Beth yw adalw?** ..... **11**

Model Tŷ'r Cyffredin ..... 12

Pryd y gellir agor deiseb adalw? ..... 13

Beth yw'r broses ar gyfer deiseb? ..... 13

Pwy all lofnodi'r ddeiseb? ..... 14

Pryd mae deiseb yn llwyddiannus? ..... 14

Pryd mae'r deisebau hyn wedi cael eu cynnal? ..... 14

Senedd yr Alban ..... 15

**3. Yr achos dros gyflwyno system adalw** ..... **17**

Barn y Pwyllgor ..... 19

**4. Dull gweithredu ar gyfer Cymru** ..... **20**

Opsiynau i Gymru ..... 22

Opsiwn 3: Proses dau gam ..... 24

Barn y Pwyllgor ..... 24

**5. Sbardunau ar gyfer adalw** ..... **27**

Sbardunau ar gyfer system adalw ..... 27

Pleidleisio ar adalw yn y Senedd ..... 31

Barn y Pwyllgor ..... 32

**6. Mecaneg y broses adalw ........ 35**

Hyd yr amser ar gyfer proses adalw ........ 35

Ariannu ac ymgyrchu dros adalw ........ 37

Ystyriaethau eraill ........ 38

Barn y Pwyllgor ........ 39

Atodiad – Sancsiynau a osodwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad hyd yn hyn ........ 41

**Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ........ 46**

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ........ 48**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae gweithio i sicrhau bod gan y Senedd y prosesau ar waith i gynnal uniondeb unigol a sefydliadol, yn ganolog i waith y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol, ac yn gonglfaen i'n democratiaeth ddatganoledig. Mae'r ymchwiliad adalw hwn a'i ganfyddiadau yn rhan o becyn parhaus o ddiwygio y mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo iddo ac, sydd â'r nod o feithrin ymddiriedaeth a thryloywder – yn ein prosesau, yn ein gwleidyddion ac yn ein gwleidyddiaeth . Rydym yn cydnabod bod angen newid i greu hyder yn y system wleidyddol, ac mae prosesau priodol yn ganolog i hyn.

Codwyd pryderon ynghylch diffyg sancsiwn a phŵer i ddiswyddo Aelodau o'r Senedd yn ystod gwaith Pwyllgor y Bil Diwygio, ac fe'u clywyd gan y pwyllgor hwn hefyd.

Ar ôl trafod y mater hwn yn fanylach, mae'r Pwyllgor yn gwbl gytûn y dylid cyflwyno system adalw mewn pryd ar gyfer y seithfed Senedd, ac y dylid ei theilwra ar gyfer Cymru. Ystyriwn bod y pŵer hwn yn rhan allweddol o'r drefn Safonau, gan ganiatáu i bobl Cymru ddweud addylid caniatáu i unigolyn sydd wedi ymddwyn mewn modd arbennig ddybryd, barhau i'w cynrychioli.

Wrth i'r Pwyllgor symud tuag at adolygu'r modd y mae'r gyfundrefn Safonau yn gweithredu'n fwy eang – gyda ffocws penodol ar gryfhau ein hymagwedd at faterion urddas a pharch – dyma obeithio mai anfynych y defnyddir y ddarpariaeth hon. Fodd bynnag, mae'n arf angenrheidiol i sicrhau nad yw'r Senedd yn caniatáu i'r rheini sydd wedi gweithredu mewn ffyrdd sy'n annerbyniol – ac sy'n tanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd neu gydweithwyr – i aros yn Aelodau presennol.

Hoffwn gofnodi fy niolch i bawb a ymatebodd i'r Pwyllgor, ac a wnaeth roi o'u hamser i ymgysylltu â ni. Mae'r dystiolaeth a gafwyd wedi bod yn amhrisiadwy o ran helpu'r Pwyllgor i fyfyrio ynghylch y mater hwn, a'r argymhellion yr ydym wedi gallu eu gwneud.

**Hannah Blythyn AS**
Cadeirydd Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i gyflwyno system adalw erbyn 2026, mewn pryd ar gyfer y Seithfed Senedd. .......... Tudalen 19

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod gan y system adalw – a gyflwynwyd ar gyfer y Senedd – un cam sy'n gofyn am ethol cwestiwn yn seiliedig ar yr egwyddor o gadw'r Aelod, neu ei ddiswyddo a'i ddisodli gan yr ymgeisydd nesaf ar restr ei blaid yn etholiad diwethaf y Senedd. .......... Tudalen 26

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i ddatblygu papur pleidleisio sy'n cyflwyno'r wybodaeth mewn modd sy'n glir ac yn hawdd ei deall. .......... Tudalen 26

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, o ystyried y broses a amlinellwyd gan y Pwyllgor, y dylid cyfeirio ato fel 'pleidlais diswyddo a disodli' yn hytrach nag adalw. .......... Tudalen 26

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod deddfwriaeth yn cael ei drafftio i roi'r gallu i'r Senedd i adalw Aelod fel sancsiwn ar ei ben ei hun. .......... Tudalen 34

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r ddeddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol, yn y Rheolau Sefydlog, i'r pwyllgor cyfrifol lunio canllawiau ar gymhwyso'r broses adalw, gan gynnwys materion a allai arwain at adalw'n awtomatig (os na chaiff ei gynnwys ar wyneb y bil). Dylai'r canllawiau hyn fod yn amodol ar bleidlais gan y Senedd. .......... Tudalen 34

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y broses adalw'n cael ei chynnal ar un diwrnod mewn proses debyg i is-etholiad, gyda digon o sylw i orsafoedd pleidleisio a dim trothwy o ran y nifer sy'n pleidleisio. Dylai pleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy fod ar gael fel rhan o'r broses hon. .......... Tudalen 40

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â gweinyddwyr etholiadol – a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb – ar oblygiadau ymarferol cynnal pleidlais adalw ar un diwrnod ar draws nifer o orsafoedd pleidleisio mewn etholaeth. .......... Tudalen 40

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r gymuned etholiadol i wneud yn siŵr bod y wybodaeth a anfonir ynghylch adalw'n hysbysu pleidleiswyr yn glir o'r rheswm dros adalw, a'r opsiynau sydd ar gael iddynt. .......... Tudalen 40

# 1. Cyflwyniad

**1.** Cytunodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (y Pwyllgor) i ystyried cyflwyno system adalw, yn dilyn yr argymhelliad yn adroddiad Cyfnod Un y Pwyllgor Biliau Diwygio ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

**2.** Argymhellodd y Pwyllgor Biliau Diwygio y dylai'r Pwyllgor ddatblygu opsiynau ar gyfer cryfhau atebolrwydd Aelodau unigol, gan gynnwys ystyried trefniant adalw, trefniadau anghymhwyso a'r sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor pan gaiff cwyn yn erbyn Aelod ei chadarnhau. Argymhellodd y Pwyllgor Biliau Diwygio y dylid cwblhau ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiynau posibl, a hynny cyn diwedd y Chweched Senedd yn 2026.

**3.** Yng nghyfnod 2 a chyfnod 3 o'r Bil, cafodd gwelliannau eu cyflwyno mewn perthynas â chyflwyno system adalw (Gwelliannau 124 a 125 Cyfnod 2, Gwelliannau 40 a 42 Cyfnod 3). Roedd cefnogaeth drawsbleidiol eang i'r gwelliannau, ond cydnabyddwyd bod hwn yn faes yr oedd angen ei ystyried ymhellach.

**4.** Ysgrifennodd y cyn Gwnsler Cyffredinol at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn dilyn Cyfnod 2 gan amlygu ei fod, fel a ganlyn:

> "*…yn cefnogi'r egwyddor gyffredinol sy'n sail i'r gwelliannau hyn, a'r atebolrwydd uwch ar yr Aelodau a fyddai'n deillio o'r gwelliannau. Penderfynais beidio â chefnogi'r gwelliannau oherwydd bod materion cymhleth a phwysig o'r fath yn gofyn am ystyriaeth lawnach nag y gall cyfnodau diwygio'r Bil hwn eu darparu, a chan fy mod yn ymwybodol o'r argymhelliad cysylltiedig i'ch Pwyllgor, a'r adolygiad arfaethedig gan eich Pwyllgor*[1]."

**5.** Ym mis Mai 2024, cadarnhaodd y cyn Brif Weinidog, Vaughan Gething AS, y byddai Llywodraeth Cymru'n gweithio'n adeiladol gyda phob plaid ar y mater adalw, a'i bod wedi ymrwymo i ddatrys y mater hwn cyn etholiad nesaf y Senedd.

**6.** Yn ogystal ag ystyried adalw yn ystod y gwaith craffu ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), cafwyd deiseb yn galw am gyflwyno system adalw ar gyfer y Senedd. Mewn ymateb i'r ddeiseb, dywedodd y cyn Brif Weinidog, Mark Drakeford AS, oherwydd y system etholiadol newydd sy'n cael ei chyflwyno ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026, ei bod yn bwysig ystyried beth fyddai

[1] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol - 13 Mawrth 2024

canlyniadau system adalw. Dywedodd pe bai system adalw'n cael ei chyflwyno, lle gallai 10% o'r etholwyr mewn etholaeth gael gwared ar Aelod, y byddai'n golygu'r canlynol:

- Byddai Aelod sy'n destun deiseb o'r fath yn colli ei sedd ar unwaith.
- Ni fyddai cyfle i'r Aelod a adalwyd i 'amddiffyn' yr achos hwnnw o adalw mewn is-etholiad. Yn hytrach, byddai'r sedd naill ai'n cael ei llenwi gan yr ymgeisydd nesaf ar restr, plaid neu'n parhau'n wag.
- Gallai Aelod golli ei sedd yn ddiwrthdro ar sail ewyllys a fynegwyd gan 10% yn unig o bleidleiswyr cofrestredig o fewn etholaeth (pe bai'r trothwy ym mhroses Senedd y DU yn cael ei fabwysiadu).

**7.** Nododd y Pwyllgor y pryderon hynny wrth gytuno ar ei gylch gorchwyl.

**8.** Cytunodd y Pwyllgor ym mis Mehefin 2024 i ystyried cynigion ar gyfer adalw, gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad mewn pryd ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth erbyn 2026.

## Ystyriaeth gychwynnol

**9.** Yn y lle cyntaf, clywodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad dystiolaeth ar y posibilrwydd o gyflwyno mecanwaith adalw ar gyfer Aelodau o'r Senedd. Nod y sesiynau tystiolaeth hyn oedd datblygu cynnig ymarferol at ddibenion ymgynghori.

**10.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y canlynol:

- Y Sefydliad Materion Cymreig;
- y Comisiynydd Safonau
- Graham Simpson ASA (yn breifat);
- yr Athro Jonathan Tonge, Prifysgol Lerpwl;
- yr Athro Alistair Clark, Prifysgol Newcastle; a
- Jane Dodds AS.

**11.** At hynny, fe wnaeth y Pwyllgor gynnal sesiwn tystiolaeth lafar gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar y pryd, Mick Antoniw AS.

**12.** Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar yr angen cyffredinol i gyflwyno mecanwaith adalw, yn ogystal â rhai o'r manylion ynghylch pa fath o amgylchiadau a ddylai ysgogi deiseb adalw, y broses ar gyfer cynnal deiseb a'r ffyrdd y byddai Aelod yn cael ei ddisodli pe bai deiseb yn llwyddiannus.

**13.** Roedd y sesiynau tystiolaeth hyn yn sail i ymgynghoriad y Pwyllgor – a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2024 – a oedd yn cynnwys cwestiynau ar elfennau penodol o ran y modd y byddai system adalw'n gweithredu ar gyfer y Senedd, yn ogystal â chyflwyno dau opsiwn i ymgyngoreion.

**14.** Fe gafodd y Pwyllgor 33 o ymatebion i'r ymgynghoriad, er bod rhai o'r rhain yn ymwneud â thwyll yn unig. Ymatebodd cymysgedd o unigolion a sefydliadau.

**15.** Yn dilyn yr ymgynghoriad, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth bellach gan y canlynol:

- Graham Simpson ASA;
- Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru;
- nifer o gyrff sy'n gysylltiedig â gweinyddiaeth etholiadol; a hefyd
- y Dirprwy Brif Weinidog.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**16.** O ystyried yr ymrwymiad clir gan Lywodraeth Cymru i weithredu yn y maes hwn, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y cyn Gwnsler Cyffredinol cyn ymgynghori.

**17.** Yn ei dystiolaeth, cafwyd y sylwadau a ganlyn gan y Cwnsler Cyffredinol:

- Roedd yn cytuno'n fras y dylai'r meysydd sy'n sbarduno deiseb adalw yn Senedd y DU gael eu hefelychu mewn system i'r Senedd;
- mae'n debyg y byddai cyflwyno proses adalw i Aelod sy'n newid pleidiau gwleidyddol yn 'gam yn rhy bell';
- dylid cael proses apelio ar gyfer Aelodau y canfyddir eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad;
- dylai pleidlais y Senedd i gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i agor deiseb adalw fod yn destun mwyafrif syml;

- gallai system adalw'r Senedd fod yn debycach i 'refferendwm' lle gofynnir i bleidleiswyr ddewis a ydynt am iddynt aros fel Aelod ai peidio, yn ddarostyngedig i drothwy;
- dylai'r un rheolau fod yn berthnasol i bleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy ag mewn etholiadau rheolaidd;
- mae system adalw un cam yn well, lle mae'r Senedd yn derbyn argymhelliad gan y Pwyllgor Safonau ac yn symud i bleidlais gyhoeddus sengl;
- byddai angen darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am ddeiseb yn cael ei sbarduno a beth yw'r cwestiwn sy'n cael ei ofyn iddynt; a hefyd
- mae system adalw'n fater sydd ym mherchnogaeth y Senedd yn y pen draw, ond hoffai Llywodraeth Cymru weld deddfwriaeth yn ei lle erbyn 2026.

**18.** Ystyriodd y Pwyllgor y paramedrau hyn a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei waith, ond ni chafodd ei gyfyngu ganddynt. At hynny, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ar ddiwedd yr ymchwiliad, i gadarnhau nad oedd safbwynt Llywodraeth Cymru wedi newid.

## Terminoleg

**19.** Mae amrywiaeth o derminoleg sy'n gysylltiedig â system adalw San Steffan, sydd wedi'i defnyddio yn yr adroddiad hwn. Y rheswm dros hynny yw mai dyma'r derminoleg gyffredin sy'n ymwneud â'r broses o adalw.

**20.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod diffyg ystyr i lawer o'r termau hyn o ran y broses a gyflawnir. Cynigir bod y system a gyflwynir yng Nghymru yn cael ei galw'n bleidlais 'diswyddo a disodli'.

**21.** Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at y term 'deiseb', sef y cam lle gall pleidleiswyr lofnodi deiseb yn ystod cyfnod o chwe wythnos. Ni fyddai'r broses y mae'r Pwyllgor yn ei chynnig yn cynnwys deiseb; byddai'n cynnal balot, yn lle hynny.

# 2. Beth yw adalw?

Mae adalw'n derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses sy'n caniatáu i bleidleiswyr ddiswyddo cynrychiolydd etholedig rhwng etholiadau.

**22.** Nid yw adalw yn fecanwaith arbennig o gyffredin. Mae gan tua 20 o wledydd ledled y byd ryw fath o fecanwaith adalw y gellir ei gymhwyso naill ai i unigolion neu i swyddfeydd penodol. Canfu Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiad Tŷ'r Cyffredin – a ystyriodd Ddeddf Adalw 2015 – fel a ganlyn:

> "*Recall mechanisms are comparatively unusual throughout the world, and particularly rare at national level.*[2]"

**23.** Mae adalw yn aml yn cael ei nodi fel dull o 'ddemocratiaeth uniongyrchol', gan ei wahaniaethu oddi wrth fecanweithiau eraill ar gyfer diswyddo swyddogion etholedig, megis uchelgyhuddiad, lle nad yw pleidleiswyr yn rhan o'r broses.

Mae'r International IDEA yn nodi bod dau brif fodel o adalw:

a. Yr 'adalw cymysg' rhannol gyfranogol, lle mae dinasyddion naill ai'n ymwneud â chychwyn cais i alw'n ôl, sydd wedyn yn cael ei gymeradwyo gan gorff awdurdodol (fel yn Uganda), neu wrth wneud penderfyniad drwy bleidleisio ar benderfyniad corff awdurdodol (fel yn Awstria, Gwlad yr Iâ a Taiwan); a hefyd

b. yr 'adalw llawn' cwbl gyfranogol lle mae'r rheswm dros adalw, a chymeradwyo'r broses adalw fel ei gilydd yn gofyn am gyfranogiad pleidleiswyr (fel yn … Ecwador a Feneswela).[3]

**24.** Dywedodd yr Athro Alistair Clark fod model San Steffan wedi defnyddio'r ddau ddull, sef naill ai sefydliad yn adalw, neu drwy'r cyhoedd yn cychwyn deiseb adalw, gan ddweud fod y model wedi gwneud fel a ganlyn:

> "*… merged those two things in an overall process. So, the first step of their recall process is that institutional check, if you like: prison sentence, suspension for 10 or more days, or a violation*


[2] Tŷ'r Cyffredin – *Recall of MPs – Political and Constitutional Reform*
[3] Direct Democracy - the international idea handbook

> *of the expenses Act. That, I think, removes the problem of things being raised that, to be honest, are just political issues, for instance. It removes, to some degree, the politicisation of the standards process, because I think there is a danger here of that potentially happening. Where Westminster then goes is it puts this out to a recall petition."*[4]

## Model Tŷ'r Cyffredin

**25.** Gwnaeth Deddf Adalw Aelodau Seneddol 2015 ddarparu system adalw ar gyfer Aelodau Tŷ'r Cyffredin.

**26.** Mae'r siart llif isod yn nodi'r camau allweddol yn y broses:




[4] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 17 Tachwedd 2024, paragraff 6

## Pryd y gellir agor deiseb adalw?

**27.** Dim ond os bodlonir un o'r tri amod a ganlyn y gellir agor deiseb adalw mewn etholaeth yn erbyn AS:

- Mae'r Aelod Seneddol, ar ôl dod yn Aelod, wedi cael euogfarn yn y DU o drosedd ac wedi cael ei ddedfrydu neu ei orchymyn i gael ei garcharu neu ei gadw, ac mae unrhyw gyfnod apelio wedi pasio heb i'r gollfarn gael ei gwrthdroi;
- yn dilyn adroddiad gan y Pwyllgor Safonau mewn perthynas ag Aelod Seneddol, mae Tŷ'r Cyffredin yn gorchymyn atal yr Aelod Seneddol o wasanaeth y Tŷ am gyfnod penodedig (o leiaf 10 diwrnod eistedd, neu o leiaf 14 diwrnod os na phennir diwrnodau eistedd); neu
- mae'r Aelod Seneddol, ar ôl dod yn Aelod, wedi'i gael yn euog o drosedd o dan adran 10 o Ddeddf Safonau Seneddol 2009 (os yw'n darparu gwybodaeth y mae'n gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol mewn perthynas â chefnogi hawliad am lwfansau).

**28.** Bydd dedfryd o garchar yn sbarduno adalw o dan yr amod cyntaf os yw'r ddedfryd yn unrhyw gyfnod hyd at flwyddyn (hyd yn oed os caiff y ddedfryd ei gohirio). Os yw Aelod Seneddol presennol a gafwyd yn euog o drosedd yn cael dedfryd o garchar o fwy na blwyddyn ac yn cael ei gadw, byddai eisoes yn colli ei sedd yn awtomatig ac nid yw adalw yn berthnasol.

**29.** Os caiff un o'r amodau ei fodloni, rhaid i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin hysbysu'r swyddog canlyniadau (a elwir yn swyddog deisebau) yn etholaeth yr Aelod Seneddol cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

## Beth yw'r broses ar gyfer deiseb?

**30.** Unwaith y bydd hysbysiad wedi dod i law gan y Llefarydd bod amod wedi'i fodloni, rhaid i'r swyddog deisebau, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ddynodi hyd at ddeg man lle gellir llofnodi deiseb unwaith y bydd wedi'i hagor. Rhaid i'r swyddog deisebau hefyd ddynodi'r diwrnod y bydd y ddeiseb yn agor. Dyma'r degfed diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr hysbysiad.

**31.** Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dynodi'r mannau llofnodi a'r diwrnod dynodedig ar gyfer agor y ddeiseb, mae'n ofynnol i'r swyddog deisebau anfon hysbysiad at yr holl bleidleiswyr cymwys yn dweud wrthynt y bydd deiseb yn cael ei hagor yn ei hetholaeth.

**32.** Bydd deiseb ar agor am chwech wythnos. Rhaid i'r ddeiseb fod ar gael i'w llofnodi o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm, ac eithrio gwyliau banc. Rhaid i'r swyddog deisebau hefyd wneud darpariaeth resymol fod y ddeiseb ar gael i'w llofnodi ar adegau eraill.

### Pwy all lofnodi'r ddeiseb?

**33.** Mae person yn gymwys i lofnodi'r ddeiseb os ydynt wedi'u cofrestru ac yn gymwys i bleidleisio mewn etholiad seneddol yn yr etholaeth ar y diwrnod ar ôl i hysbysiad y Llefarydd gael ei roi. Ni fydd pobl sy'n cofrestru i bleidleisio tra bod y ddeiseb ar agor yn gallu llofnodi'r ddeiseb.

**34.** Bydd pleidleiswyr cymwys sydd am lofnodi'n bersonol yn mynd i'r man arwyddo dynodedig. Os oes mwy nag un man llofnodi, bydd y swyddog deisebau yn neilltuo man llofnodi i bleidleiswyr, mewn ffordd debyg i bleidleiswyr yn cael gorsaf bleidleisio ddynodedig mewn etholiad.

**35.** Yn yr un modd â phleidleisio mewn etholiad, gall pleidleiswyr cymwys lofnodi'r ddeiseb naill ai drwy'r post neu drwy benodi dirprwy.

### Pryd mae deiseb yn llwyddiannus?

**36.** Er mwyn i ddeiseb lwyddo, rhaid iddi gael ei llofnodi gan 10 y cant o bleidleiswyr cofrestredig ar y gofrestr seneddol ar y diwrnod y mae'r swyddog deisebau'n cael yr hysbysiad am ddeiseb.

**37.** Os bydd y ddeiseb yn llwyddiannus, bydd y swyddog deisebau yn hysbysu Llefarydd Tŷ'r Cyffredin. Bydd sedd yr Aelod Seneddol yn dod yn wag wrth roi'r hysbysiad hwnnw.

**38.** Ar ôl i'r aelod adael ei sedd, mae'r confensiynau arferol ar gyfer galw isetholiad yn berthnasol.

**39.** Nid yw cael ei ddiswyddo gan ddeiseb adalw yn anghymhwyso'r AS sy'n gadael rhag ceisio sefyll yn yr isetholiad dilynol.

### Pryd mae'r deisebau hyn wedi cael eu cynnal?

**40.** Hyd yn hyn, cynhaliwyd chwe deiseb adalw, gyda phedair o'r rhain yn cyrraedd y trothwy llofnodion gofynnol. Cafodd y deisebau a oedd yn cyrraedd y trothwy 10% eu cynnal yn Peterborough, Brycheiniog a Sir Faesyfed, Rutherglen a Gorllewin Hamilton a Wellingborough. Roedd y ddeiseb yng Ngogledd Antrim ychydig yn brin o'r nifer gofynnol o lofnodion, ac yn Ne Blackpool ymddiswyddodd yr AS yn ystod y cyfnod deisebau.

**41.** Bu amgylchiadau eraill lle roedd Aelodau Seneddol a oedd yn bodloni'r trothwy ar gyfer cychwyn deiseb adalw wedi dewis ymddiswyddo o'u seddi cyn y gellid agor unrhyw ddeiseb o'r fath, neu cyn i etholiad gael ei alw.

## Senedd yr Alban

**42.** Ym mis Rhagfyr 2024 cyflwynodd Graham Simpson ASA fesur Aelodau preifat yn Senedd yr Alban â'r nod o gyflwyno mesurau newydd i ddiswyddo ASA.[5] Mae hyn yn cynnwys creu seiliau newydd at ddibenion diswyddo ASAau yn awtomatig, pan nad yw'r ASAau yn cymryd rhan mewn trafodion am chwe mis heb reswm da, ac ar gyfer y rheini a ddedfrydir i garchar am gyfnod o 6-12 mis. Golygai hynny y byddai Senedd yr Alban yn debycach i awdurdodau lleol yn yr Alban.

**43.** Yn y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'i gynnig gwreiddiol, mae Mr Simpson yn nodi nad oes model ymarferol ar gyfer system adalw ar gyfer Senedd yr Alban wedi'i nodi o'r blaen, er ei fod yn cael ei ystyried gan academyddion a gwleidyddion.[6]

**44.** Bydd y system adalw arfaethedig yn y Bil yn cael ei sbarduno os bydd Aelod o Senedd yr Alban yn cael ei wahardd o'r trafodion am 10 diwrnod eistedd neu fwy, o ganlyniad i dorri'r cod ymddygiad, neu os yw'n dal swydd fel ASA, yn cael ei gollfarnu o drosedd unrhyw le yn y Deyrnas Unedig ac, o ganlyniad, yn cael ei ddedfrydu neu ei orchymyn i'w garcharu neu ei gadw'n gaeth am gyfnod o lai na 6 mis.

**45.** Mae'r cynigion yn y Bil yn adlewyrchu llawer o elfennau cynllun adalw Senedd y DU ar gyfer Aelodau o Dŷ'r Cyffredin. Fodd bynnag, mae'r system hon yn cael ei chymhlethu pan gaiff ei chymhwyso i Aelodau o Senedd yr Alban a etholir drwy'r rhestr ranbarthol. Mae hyn yr un fath â'r system a ddefnyddir i ethol Aelodau o'r Senedd, a byddai'r un heriau yn berthnasol i'r system sy'n cael ei chynnig ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

**46.** Y cynnig yn y Bil ar gyfer adalw Aelod rhanbarthol yw bod un papur pleidleisio yn cynnwys dau gwestiwn: mae'r cyntaf yn gofyn a ddylai'r Aelod dan sylw gael ei adalw gyda throthwy wedi'i osod ar gyfer y gefnogaeth sy'n ofynnol; mae'r ail gwestiwn yn cynnig dewis rhwng yr ASA presennol sy'n destun yr adalw, ac enw'r ymgeisydd nesaf ar restr ranbarthol y blaid honno a gyflwynwyd yn yr etholiad diwethaf. Roedd Graham Simpson yn cydnabod, wrth nodi'r cynnig, y

[5] Scottish Parliament (Recall and Removal of Members) Bill
[6] Removal from Office and Recall (Members of the Scottish Parliament) Bill

byddai hyn ond yn cynnig dewis rhwng ymgeiswyr o'r un blaid wleidyddol i'r etholwyr.

**47.** Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynnig, tynnodd Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig â chyflwyno system adalw o ystyried y system etholiadol a ddefnyddir ar gyfer Senedd yr Alban:

> *For Regional members however vacancies are not filled by by-election and the approach to recall is far from clear. A successful recall petition might create a vacancy, but the consequence would not be a byelection. Proportionality from the original poll would need to be preserved. Assuming the recalled member still had the endorsement of their party then they would remain in the seat. If the party removed their endorsement, then the seat would go to their next candidate on their list.*[7]

**48.** Dywedodd Dr Alistair Clark, Athro Gwyddor Wleidyddol ym Mhrifysgol Newcastle, yr hyn a ganlyn ynglŷn â gweithrediad y system adalw ar gyfer y rhestr ranbarthol:

> *I am sanguine about the fact that the recall of a regional list MSP would not necessarily lead to a by-election. This is how the casual vacancy system for the lists works, and I see no reason why it shouldn't continue to work that way if an MSP is recalled. The voters will have a new MSP, who, given what happened to their predecessor, is likely to take their role seriously, which seems to me to be the whole point of the exercise.*[8]

[7] Bil arfaethedig Diswyddo ac Adalw (Aelodau Senedd yr Alban) – Graham Simpson ASA, Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad
[8] Bil arfaethedig Diswyddo ac Adalw (Aelodau Senedd yr Alban) – Graham Simpson ASA, Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

# 3. Yr achos dros gyflwyno system adalw

## Bu'r Pwyllgor yn ystyried a oedd angen cyflwyno system adalw ar gyfer y Senedd.

**49.** Ar hyn o bryd, mae Aelod unigol o'r Senedd yn cael ei ddwyn i gyfrif mewn nifer o ffyrdd:

- Ar ôl cael ei ethol, mae Aelod yn atebol i'w etholwyr ac yn y pen draw, bydd Aelod sy'n sefyll i gael ei ailethol yn cael ei ddwyn i gyfrif gan y cyhoedd ym mhob etholiad.
- Gall Aelodau gael eu hanghymhwyso a'u diswyddo yn ystod tymor y Senedd am resymau penodedig, gan gynnwys os cânt eu dyfarnu'n euog o drosedd a chael dedfryd o 12 mis neu ragor yn y carchar.
- Disgwylir i'r Aelodau hefyd fodloni'r safonau ymddygiad a'r rheolau a nodir yng Nghod Ymddygiad y Senedd, a gallant wynebu sancsiynau am dorri'r rheolau hyn.
- Fodd bynnag, nid oes darpariaeth i'r Senedd ei hun argymell cael gwared ag Aelod yn ystod tymor y Senedd.

**50.** Roedd y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn gryf o blaid cyflwyno system adalw yn y Senedd.

**51.** Nododd y Pwyllgor ddeiseb P-06-1386: "Dylid cyflwyno ffordd i etholwyr bleidleisio i gael gwared ar eu AS cyn diwedd eu tymor". Roedd y ddeiseb yn galw am y canlynol:

> *… y Senedd i fabwysiadu trefn adalw (fel y nodir isod), neu rywbeth tebyg, fel y gall etholwyr alw ar AS i adael ei sedd.*
>
> Yr amodau i sbarduno adalw byddai deiseb ar-lein sydd ag o leiaf 100 o lofnodion gan bleidleiswyr cofrestredig cymwys.

**52.** Cyflwynwyd y ddeiseb hon ym mis Chwefror 2024 ac fe gafodd 2,012 o lofnodion.

**53.** Atebodd saith person ar hugain 'dylid' ar gyfer y cwestiwn canlynol, fel rhan o'r ymgynghoriad: "A ddylai fod pŵer i ddiswyddo Aelod o'r Senedd yn ystod

tymor Senedd pan fo cwyn am gamymddwyn wedi'i chadarnhau?" Dim ond dau ymatebydd oedd heb farn, ac nid oedd unrhyw un yn anghytuno â'r cwestiwn.

**54.** Roedd y canlynol ymhlith rhai o'r rhesymau dros ateb yn gadarnhaol i hyn:

> *Os nad ydyn nhw wedi ymddwyn mewn modd proffesiynol, gonest, dylen nhw gael eu diswyddo ar unwaith.*
>
> *Mae gan y cyhoedd yr hawl i ddisgwyl bod Aelodau'r Senedd yn ymddwyn mewn modd proffesiynol. Os yw Aelod yn ymddwyn yn amhriodol, yna ni ddylai'r Aelod hwnnw allu cuddio y tu ôl i fathodyn ei swydd – os canfyddir ei fod yn euog o gamymddwyn, yna dylid ei ddiswyddo.*
>
> *Mae angen canlyniadau mewn achosion o gamymddwyn. Os yw AS wedi'i ganfod a'i brofi fel bod yn ymddwyn yn amhriodol, yna'n sicr ni ddylid caniatáu iddo barhau fel cynrychiolydd ar gyfer ei sedd.*

**55.** Dywedodd Joe Rossiter, o'r Sefydliad Materion Cymreig wrth y Pwyllgor fod diwygio'r Senedd yn gyfle na ddylid ei golli i gyflwyno system adalw. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod hon yn foment i adfywio ein systemau democrataidd, ac y dylid cael mecanweithiau mwy cadarn a thryloyw ar gyfer sicrhau bod Aelodau'r Senedd yn cynnal safonau uchel o uniondeb. Aeth ymlaen i awgrymu bod hwn yn amser da i gyflwyno newid o'r fath, gan y bydd yna Senedd fwy o faint, ac y byddai'n ddarbodus i ddiogelu'r Senedd at y dyfodol.[9]

**56.** Dywedodd Douglas Bain, y Comisiynydd Safonau wrth y Pwyllgor ei fod yn croesawu unrhyw beth a fydd yn cryfhau gallu'r cyhoedd i alw Aelodau o'r Senedd i gyfrif. Fodd bynnag, cododd bryderon ynghylch sut y gellir cyflawni hyn o dan y system etholiadol newydd. [10]

**57.** Pwysleisiodd Jessica Blair, o'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol fod hon yn sgwrs wirioneddol bwysig y mae'r Senedd yn ei chael. Dywedodd fod y sgwrs hon yn bwydo i mewn i atebolrwydd, sy'n hanfodol mewn gwleidyddiaeth. Pwysleisiodd fel a ganlyn:

> *"… there's an important part for it to play in terms of having accountability mechanisms that are very clear and transparent to the public, so that voters can understand the mechanisms, if*

[9] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 3 Mehefin 2024, paragraff 3-4
[10] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 3 Mehefin 2024, paragraff 65

> *there is bad behaviour, what happens then, and that there are consequences. But I think what we would say is that recall shouldn't be a replacement for any kind of further disqualification. It should be a real balance in terms of the extent of misconduct, in terms of what kind of appropriate mechanism is used."*[11]

## Barn y Pwyllgor

**58.** Fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am gynnal a hybu safonau ymddygiad yn y Senedd, rydym yn cefnogi'n gryf unrhyw ddarpariaeth sy'n gwella atebolrwydd Aelodau unigol.

**59.** Nododd y Pwyllgor fod cyflwyno'r system adalw yn San Steffan wedi cael ei dderbyn yn dda, a'i bod yn cael ei defnyddio'n effeithiol i ganiatáu i'r cyhoedd ddwyn i gyfrif yr Aelodau hynny a oedd wedi gweithredu mewn ffyrdd a oedd yn sylweddol is na'r safonau a ddisgwylir gan seneddwyr.

**60.** Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i ystyried y fframwaith safonau cyfan, a sicrhau bod gan y Senedd y systemau a'r pwerau i rymuso pobl i fynegi pryderon am faterion fel aflonyddu rhywiol. Er mwyn gwneud hyn, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn bwysig gallu cael pwerau digonol i ymdrin â chamymddwyn difrifol, ac mae'r gosb o adalw'n ffactor pwysig yn hynny o beth.

**61.** Mae'r Pwyllgor, felly, yn cytuno'n llwyr â'r egwyddor o adalw ôl sy'n cael ei chyflwyno ar gyfer y Senedd.

**62.** Bydd cyflwyno system adalw'n rhan bwysig o'r drefn Safonau, ac i sicrhau eglurder a dealltwriaeth ynghylch y mesurau y gellir eu defnyddio i ddwyn Aelodau i gyfrif. Rydym o'r farn y dylid cyflwyno hyn mewn pryd ar gyfer y Seithfed Senedd. Mae hyn yn golygu y bydd yr holl Aelodau a etholir i'r Senedd nesaf yn cael eu cynnal i safon gyson o'r cychwyn cyntaf.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i gyflwyno system adalw erbyn 2026, mewn pryd ar gyfer y Seithfed Senedd.

**63.** Mae'r penodau a ganlyn yn nodi sut y gall y system hon weithio i'r Senedd.

---

[11] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 19 Tachwedd 2024, paragraff 114

# 4. Dull gweithredu ar gyfer Cymru

**64.** Cafwyd sawl sylw ar y fantais i'r Senedd adlewyrchu system San Steffan gymaint â phosibl, fodd bynnag bydd y gallu i wneud hyn yn cael ei gyfyngu gan y gwahaniaethau mewn systemau etholiadol rhwng seneddau'r DU Chymru.

**65.** Yn etholiad Senedd 2026 bydd pob Aelod yn cael ei ethol drwy system cynrychiolaeth gyfrannol ar sail rhestr gaeedig. Mae hyn yn golygu y bydd pleidleiswyr yn gosod un bleidlais i blaid, a bydd seddi'n cael eu dyrannu i ymgeiswyr a restrir gan y blaid trwy fformiwla D'hondt. Bydd pob plaid yn gallu enwebu hyd at wyth enw ar gyfer rhestr. Mae hwn yn amrywiad sylweddol o'r system y cyntaf i'r felin a ddefnyddir yn San Steffan.

**66.** Un o effeithiau'r system etholiadol newydd fydd dileu is-etholiadau. Byddai angen cyflwyno system bleidleisio wahanol pe bai is-etholiadau yn cael eu cynnal fel rhan o system adalw.

**67.** Byddai diffyg isetholiadau yng Nghymru yn golygu y gallai fod seddi gwag pe bai Aelod annibynnol yn cael ei adalw, neu os byddai rhestr plaid wedi'i disbyddu. Tynnodd Colin Everett sylw at y canlynol:

> "… *regardless of the voters' preference or political views, they know they have the comfort, under the new system, of having multiple representations. So, democratic representation wouldn't be hugely compromised by the loss of one Member should we not be able to fill that position due to, for example, an exhausted list, other than people having a preference for which MS they would go to for their constituency issues.*"[12]

**68.** Dywedodd yr Athro Jonathan Tonge wrth y Pwyllgor mai'r dull mwyaf syml o weithredu fyddai dyrannu swydd wag i'r person nesaf ar restr y blaid. Amlinellodd nifer o opsiynau sydd ar gael ar gyfer gweithredu system adalw ar gyfer y Senedd, fel a ganlyn:

> "*You could just have the 10-per-cent-of-the-electorate threshold to sign the petition and then that triggers automatic removal…*

---

[12] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 19 Tachwedd 2024, paragraff 56

*You could have a straightforward, if you like, mini-referendum, on whether the person stays or goes. You could put it to the electorate and, over a specified period…*

*Another option would be to have by-elections. It's not impossible to have PR-STV by-elections. Ireland's managed it for more than 100 years. A hundred and thirty-four—I'll just double-check the figures—sorry, 138 by-elections since 1923, when they were introduced in Ireland under PR-STV. …And another alternative, which I'm sure you won't go for, but I'll just raise it, you could—it would probably confuse the electorate as well—have a first-past-the-post by-election."*[13]

**69.** At hynny, amlygodd y dylid ystyried gosod trothwy uwch na 10% gan y byddai'r system yn arwain at ddiswyddo'n llwyr, yn hytrach nag is-etholiad.

**70.** Er gwaethaf cynrychiolaethau o blaid cydraddoldeb rhwng unrhyw systemau yn San Steffan a'r Senedd, tynnodd Claire Sims sylw at hynny, fel a ganlyn:

"*… it would be wrong to introduce a system in Wales that has got flaws currently in the UK parliamentary system that the Electoral Commission's reports have flagged"*[14]

**71.** Tynnodd Jonathan Tonge sylw at y cyfle sydd ar gael i'r Senedd i wneud y canlynol:

"*… correct the details that Westminster got wrong, whilst retaining the 80 per cent plus that Westminster got right here. I do think it's a wonderful opportunity to have. You cannot create a 100 per cent perfect recall system, there'll always be anomalies, and I think what you're moving towards probably is a removal system. Would you call it a recall system or removal? It depends. The phraseology can be important here, but, if you're co-opting a party replacement, I think people will see the logic of it, it just needs explaining that it's the miscreant that's being punished, it's not the party. Why should the political party be punished?"*[15]

[13] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 10 Mehefin 2024, paragraff 23-27
[14] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 17 Tachwedd 2024, paragraff 16
[15] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 10 Mehefin 2024, paragraff 59

**72.** O dan system San Steffan, dim ond opsiwn sydd ar gael ar hyn o bryd i lofnodi eich bod yn dymuno adalw Aelod, nid yw'r balot yn caniatáu i bleidleiswyr gofrestru eu hanghytundeb â'r penderfyniad i adalw'r Aelod yn ôl, neu ei gefnogi. Mae hyn wedi arwain at rai pryderon bod predenoldeb ar gyfer llofnodi deiseb yn gwneud eich bwriad yn un clir. Canfu adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar ddeiseb adalw Gogledd Antrim fod rhai ymgyrchwyr wedi codi pryderon yn gynnar yn y ddeiseb adalw am 'ddiffyg cyfrinachedd' a allai fod wedi atal rhai etholwyr rhag llofnodi'r ddeiseb.[16] Clywodd y Pwyllgor neges debyg gan Clare Sim, a ddywedodd:

> *"… there are concerns with some recall petitions over the current signing, because it's obvious why you're attending a polling place to sign a petition to remove that person."*[17]

## Opsiynau i Gymru

**73.** Ar ôl ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law a'r opsiynau posibl gyda'r system etholiadol newydd, nododd y Pwyllgor y prosesau adalw posibl a allai fod ar waith yn y Senedd:

- Opsiwn 1: Mae deiseb adalw yn cael ei chynnal yn gofyn a ddylid adalw'r Aelod. Os bydd Aelod yn cael ei adalw, byddai'r ymgeisydd nesaf o restr y blaid yr etholwyd yr Aelod a gafodd ei ethol arni, yn llenwi'r sedd wag. Mae'r dull hwn yn golygu y byddai llofnodi'r ddeiseb yn cael gwared â'r Aelod, yn hytrach nag arwain at is-etholiad yn yr etholaeth honno. Byddai cymesuredd canlyniad yr etholiad diwethaf yn cael ei gynnal, a gellid llenwi swyddi gweigion yn gyflym. Ni fyddai Aelodau Annibynnol yn cael eu disodli.

- Opsiwn 2:Mae pleidlais diswyddo a disodli yn cael ei chynnal, a fyddai'n rhoi opsiwn naill ai i gadw'r Aelod presennol neu ei ddiswyddo a phenodi'r ymgeisydd nesaf ar restr y blaid yn ei le. Byddai hyn yn ddarostyngedig i gyfnod ymgyrchu, ac yn caniatáu cyfle i'r Aelod sy'n destun y broses 'adalw' amddiffyn ei sedd gyda'r etholwyr. Byddai cymesuredd y Senedd yn cael ei gynnal. Ni fyddai Aelodau Annibynnol yn cael eu disodli.

**74.** Ymgynghorodd y Pwyllgor ar y ddau opsiwn posibl hyn. Nid oedd consensws clir ar yr opsiynau a gyflwynwyd heblaw'r Crynwyr yng Nghymru. Yn eu barn hwy,

---

[16] Adroddiad: *2018 recall petition in North Antrim* | Y Comisiwn Etholiadol
[17] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 19 Tachwedd 2024, paragraff 45

os yw'r drosedd yn ddifrifol yna dylid gweithredu Opsiwn 1 (deiseb adalw yn gofyn yn unig a ddylai Aelod gael ei adalw).

**75.** Soniodd llawer o'r unigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar yr angen am ryw fath o isetholiad. Roedd hwn yn farn a adleisiwyd gan y sefydliadau proffesiynol a ymatebodd, hefyd.

**76.** Cododd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, ERS Cymru a Transparency International UK faterion ynghylch diffyg is-etholiad fel rhan o'r naill opsiwn neu'r llall, gydag ERS Cymru yn awgrymu y dylid ystyried sut i gynnal is-etholiad gan ddefnyddio'r Bleidlais Atodol neu'r Pleidlais Amgen. Awgrymodd Transparency International UK y dylai'r Pwyllgor archwilio sut y cynhelir isetholiadau mewn llywodraeth leol yn yr Alban (gan ddefnyddio system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) gan y byddai hyn yn dangos sut y gellir disodli Aelodau mewn ward aml-aelod.

**77.** At hynny, mae ERS Cymru'n dweud nad oes gan y naill opsiwn na'r llall fecanwaith ar gyfer disodli Aelod sy'n cael ei adalw os yw rhestr y blaid yn yr etholaeth honno wedi'i disbyddu, a thrwy fynd yn syml at yr Aelod nesaf ar restr y blaid efallai y bydd canfyddiad bod plaid yn cael ei "gwobrwyo" am ymddygiad gwael Aelod blaenorol. Mae'n nodi bod y pedwar is-etholiad a gynhaliwyd ar ôl deiseb adalw yn Senedd flaenorol y DU i gyd wedi arwain at blaid wahanol yn ennill y sedd honno na'r un a gynrychiolwyd gan yr AS a gafodd ei adalw. Mae'n ychwanegu y gallai hyn, hefyd, gael ei weld fel gwrthod y blaid yn ogystal â'r Aelod dan sylw.

**78.** Mae Transparency International UK yn gwneud sylwadau tebyg ynglŷn â disodli Aelod gyda'r ymgeisydd nesaf o'r un blaid, gan nodi y gallai hyn gael ei weld gan y cyhoedd fel diffyg cyfiawnder. Mae'n ystyried y dylai fod yn ofynnol i'r parti a'r unigolyn ymateb i fethiannau uniondeb.

**79.** Awgrymodd Colin Everett y byddai proses un cam yn ddewis amgen ymarferol iawn, a fyddai o ddiddordeb gan y byddai'n lleihau'r baich gweinyddol. Pwysleisiodd fel a ganlyn:

> "*… the principle at stake here is there is accountability and that the elector has a voice in some way … the first priority is to protect the interests, the rights and the accessibility of the elector to participate.*"[18]

[18] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 19 Tachwedd 2024, paragraff 29

**80.** O ran a ddylai'r ddau ymgeisydd gael eu henwi ar y papur pleidleisio neu gwestiwn sy'n debycach i refferendwm, sy'n dweud, 'a ydych yn dymuno i'r person hwn barhau—ydw neu nac ydw?'. Dywedodd Michela Palese er nad oedd gan y Comisiwn Etholiadol farn ar yr opsiwn gorau, ei bod yn bwysig sicrhau'r canlynol:

> *"… [the] ballot paper is intelligible and understandable and does not cause confusion to the voters. So, one option and possible consideration around that is conducting perhaps some user research with voters to understand whether or not that ballot paper and the options that are presented are intelligible to them"*[19]

### Opsiwn 3: Proses dau gam

**81.** Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth gyda Graham Simpson ASA, bu'r Pwyllgor yn trafod a ellid rhoi proses adalw ar waith a oedd yn cyfuno'r ddwy elfen hyn, drwy ofyn yn gyntaf i etholwyr lofnodi deiseb i adalw Aelod, ac yna (yn amodol ar gyrraedd y trothwy ar gyfer adalw Aelod), yn gofyn a ddylai'r Aelod hwnnw aros yn ei swydd neu gael ei ddisodli gan rywun arall.

**82.** Byddai'r system a gynigiwyd gan Graham Simpson ASA ar gyfer yr Alban yn defnyddio'r broses hon ar un papur pleidleisio, er mwyn atal etholwyr rhag gorfod cymryd rhan mewn dwy bleidlais ar wahân. Mae defnyddio'r system hon mewn system Aelodau cymysg (gydag Aelodau etholaethol a rhanbarthol wedi'u hethol ar fandadau gwahanol) wedi'i gynllunio i sicrhau cysondeb â'r broses sy'n berthnasol i bob Aelod. Ni fyddai hyn yn angenrheidiol, o ystyried bod y Senedd yn symud i system lle byddai pob Aelod yn cael ei ethol yn yr un modd.

## Barn y Pwyllgor

**83.** Ar ôl ystyried yr opsiynau sydd ar gael, cytunodd y Pwyllgor y dylai'r system a roddir ar waith yng Nghymru fod yn broses un cam. Er y gallai adlewyrchu system y DU ei gwneud yn haws i'w deall, bydd y system etholiadol yng Nghymru yn sylweddol wahanol, ac yn gofyn am ddull wedi'i deilwra.

**84.** Nid yw'r Pwyllgor o'r farn y byddai'r broses bresennol yn San Steffan gyda deiseb ac yna is-etholiad, pe bai 10 y cant o'r arwyddion etholwyr cymwys, yn gweithio i'r rhai sy'n cael eu hethol i'r Senedd.

[19] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 19 Tachwedd 2024, paragraff 60

**85.** Er gwaethaf tystiolaeth y gallai is-etholiadau fod yn bosibl – ac yn fwy dymunol i lawer – o dan y system etholiadol newydd, nododd y Pwyllgor fod y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn nodi y bydd lleoedd gwag yn cael eu llenwi drwy restrau yn hytrach na isetholiadau. Mae'n nodi y bydd hyn yn helpu i leihau costau, a'r amser rhwng seddi'n dod yn wag a'r Aelod newydd yn cael ei ethol[20]. Nid yw'r Pwyllgor, felly, yn ystyried argymell is-etholiadau ar gyfer materion adalw i fod yn gyson â phenderfyniadau a wneir mewn mannau eraill o ran y system etholiadol sy'n cael ei chyflwyno.

**86.** Er mwyn sicrhau y byddai'r broses o adalw mor syml â phosibl i bobl ei deall ac ymgysylltu â hi, rydym o'r farn mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw cynnal un balot yn gofyn a ddylid diswyddo Aelod a rhoi'r person nesaf ar y rhestr yn ei le, neu gadw eu safle. Wrth fabwysiadu'r dull hwn, nid yw'r Pwyllgor yn ystyried bod y term 'adalw' yn arbennig o ddefnyddiol wrth egluro'r hyn mae'r broses yn ei olygu neu'n ei olygu, ac mae'r Pwyllgor yn cynnig yn lle hynny ei bod yn cael ei galw'n 'bleidlais diswyddo a disodli'.

**87.** Bydd y dull hwn yn galluogi'r etholwyr i fod yn fwy ymwybodol o'r penderfyniad a'r dewis y maent yn ei wneud, yn hytrach na 'a ddylai Aelod x gael ei adalw?' fel cwestiwn.

**88.** Er ei bod yn bosibl na fydd diffyg is-etholiad yn rhoi dewis i etholwyr bleidleisio dros blaid wahanol, credwn fod pŵer adalw yn ymwneud â gwella atebolrwydd aelodau unigol ac felly mae'r dull hwn yn caniatáu'r opsiwn i ddwyn Aelodau i gyfrif am eu gweithredoedd.

**89.** Mae'r Pwyllgor yn nodi, yn achos 'pleidlais diswyddo a disodli' ar gyfer Aelod sydd wedi gadael y blaid y'i etholwyd i'r Senedd gyda hi, y person nesaf ar y blaid wreiddiol honno fyddai'r opsiwn sydd ar gael i'r etholwyr.

**90.** Bu'r Pwyllgor yn ystyried effaith sedd wag, o bosibl, o ganlyniad i ddisbyddu Aelod annibynnol neu restr plaid. Cytunodd y Pwyllgor – yn ôl cydbwysedd y risg – fod hon yn sefyllfa yr oedd yn gyfforddus ag ef, o ystyried na fyddai'n disgwyl i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio'n eang ym mhob Senedd. At hynny, roedd y Pwyllgor yn fodlon na fyddai sedd wag yn amddifadu'r etholwyr o gynrychiolaeth, o ystyried y byddai'r system etholiadol sy'n dod i rym yn 2026 yn sicrhau bod pum Aelod arall i gynrychioli unrhyw etholaeth benodol

---

[20] BIL Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) Memorandwm Esboniadol

**91.** Mae manteision pellach yn gysylltiedig â'r dull hwn o ran ei gwneud yn ofynnol i un broses gael ei rhedeg yn unig. Mae hyn yn golygu mai dim ond un bleidlais y bydd angen i bleidleiswyr fod yn bresennol ar ei chyfer, a allai arwain at fwy yn bwrw pleidlais. At hynny, bydd costau is hefyd yn gysylltiedig â'r broses hon.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod gan y system adalw – a gyflwynwyd ar gyfer y Senedd – un cam sy'n gofyn am ethol cwestiwn yn seiliedig ar yr egwyddor o gadw'r Aelod, neu ei ddiswyddo a'i ddisodli gan yr ymgeisydd nesaf ar restr ei blaid yn etholiad diwethaf y Senedd.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i ddatblygu papur pleidleisio sy'n cyflwyno'r wybodaeth mewn modd sy'n glir ac yn hawdd ei deall.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, o ystyried y broses a amlinellwyd gan y Pwyllgor, y dylid cyfeirio ato fel 'pleidlais diswyddo a disodli' yn hytrach nag adalw.

# 5. Sbardunau ar gyfer adalw

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr hyn a allai sbarduno achosion o adalw.

**92.** Mae Deddf Adalw ASau 2015 yn nodi'r sbardunau ar gyfer deiseb adalw yn San Steffan. Ceir rhagor o fanylion am y modd y mae'r sbardunau hyn yn gweithredu isod, ac ym mhennod dau.

**93.** Er mwyn sicrhau cymaint o gysondeb â phosibl, defnyddiodd y Pwyllgor y rhain fel man cychwyn ar gyfer ystyried pa sbardunau a allai weithio yng Nghymru.

## Sbardunau ar gyfer system adalw

**94.** Dim ond os bodlonir un o'r tri amod a ganlyn y gellir agor deiseb adalw mewn etholaeth yn erbyn AS:

- Mae'r Aelod Seneddol, ar ôl dod yn Aelod, wedi cael euogfarn yn y DU o drosedd ac wedi cael ei ddedfrydu neu ei orchymyn i gael ei garcharu neu ei gadw, ac mae unrhyw gyfnod apelio wedi pasio heb i'r gollfarn gael ei gwrthdroi;
- yn dilyn adroddiad gan y Pwyllgor Safonau mewn perthynas ag Aelod Seneddol, mae Tŷ'r Cyffredin yn gorchymyn atal yr Aelod Seneddol o wasanaeth y Tŷ am gyfnod penodedig (o leiaf 10 diwrnod eistedd, neu o leiaf 14 diwrnod os na phennir diwrnodau eistedd); neu
- mae'r Aelod Seneddol, ar ôl dod yn Aelod, wedi'i gael yn euog o drosedd o dan adran 10 o Ddeddf Safonau Seneddol 2009 (os yw'n darparu gwybodaeth y mae'n gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol mewn perthynas â chefnogi hawliad am lwfansau).

**95.** Bydd dedfryd o garchar yn sbarduno adalw o dan yr amod cyntaf os yw'r ddedfryd yn unrhyw gyfnod hyd at flwyddyn (hyd yn oed os caiff y ddedfryd ei gohirio). Os yw Aelod Seneddol presennol a gafwyd yn euog o drosedd yn cael dedfryd o garchar o fwy na blwyddyn ac yn cael ei gadw, byddai eisoes yn colli ei sedd yn awtomatig ac nid yw adalw yn berthnasol.

**96.** Mae'r amod cyntaf a'r trydydd amod yn sbarduno adalw'n awtomatig, tra byddai'r ail amod yn destun pleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin.

**97.** Os caiff un o'r amodau ei fodloni, rhaid i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin hysbysu'r swyddog canlyniadau (a elwir yn swyddog deisebau) yn etholaeth yr Aelod Seneddol cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

**98.** Mae Bil Graham Simpson ASA i gyflwyno mesurau newydd ar ddiswyddo ASA, yn cynnwys seiliau ychwanegol dros wahardd, a phrosesau newydd ar gyfer diswyddo, megis adalw. Mae seiliau newydd arfaethedig ar gyfer anghymhwyso yn y Bil yn cynnwys achosion lle nad yw ASA yn cymryd rhan mewn trafodion seneddol am gyfnod penodol heb reswm dilys, neu'n cael dedfryd o garchar sy'n is na'r trothwy presennol ar gyfer diswyddo'n awtomatig.

**99.** Dywedodd Joe Rossiter wrth y Pwyllgor ei fod o'r farn bod y sbardunau yn San Steffan yn fan cychwyn da, gan ei fod yn ymddangos i hynny wreiddio'n dda, ac nad yw wedi arwain at nifer helaeth o ddeisebau. Pwysleisiodd fod hon yn waelodlin dda, ond y dylai'r Senedd fod yn ceisio gwneud ein democratiaeth yn well na'r hyn sy'n digwydd yn San Steffan.

**100.** Dywedodd fod trydydd maen prawf San Steffan yn ymwneud â'r foment wleidyddol yr aeth y Bil adalw hwnnw drwy'r Senedd, o ran mai'r sgandal treuliau oedd yn gefnlen i gyflwyno'r darn hwn o ddeddfwriaeth. Pwysleisiodd mai'r ffactorau ar gyfer hynny yng Nghymru yw beth yw'r pethau o dan sylw, y mathau o ymddygiad, yr ydym yn ceisio eu hatal? Dywedodd ei bod yn bosibl iawn mai'r defnydd o dreuliau ydyw, neu efallai'n wir ymddygiadau amhriodol gan Aelodau o'r Senedd. [21]

**101.** Cytunodd Douglas Bain fod sbardunau San Steffan yn fan cychwyn da, er iddo amlygu na fyddai'r trydydd un yn drosglwyddadwy'n uniongyrchol i'r cyd-destun Cymreig, gan nad yw'r un mecanwaith ar gyfer treuliau yn bodoli, ond awgrymodd y gellid meddwl am rywbeth tebyg, torri'r rheolau cyfrifyddu ac adnoddau. At hynny, gofynnodd a oedd dedfryd o garchar am ddeuddeng mis yn rhy hir o ran gwaharddiad awtomatig, a holodd y cwestiwn a ganlyn:

> "*Is it acceptable for someone who's been sentenced to six months' imprisonment, particularly if it's served immediately, to remain a Member of the Senedd? I think many would think the answer is 'no'. But fixing the time limits is a fairly arbitrary process, and there will always be hard cases that fall just one side or another.*"[22]

[21] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 3 Mehefin 2024, paragraff 6-7
[22] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 3 Mehefin 2024, paragraff 65

**102.** Dywedodd yr Athro Alistair Clark wrth y Pwyllgor fod risg y byddai'r cyfryw weithdrefn safonau yn mynd yn or-wleidyddol. Awgrymodd fod y sbardunau, megis dedfryd o garchar a threuliau, wedi'u cynnwys fel a ganlyn:

> "*… these are fairly objective standards, by comparison with—. Well, what do people always complain about politicians doing? Being economical with the truth and things of this sort. That's much more political, so I'd caution, probably, against going in that direction and broadening this. I think that you want to keep this fairly tight, because it's quite a serious thing to remove someone who is elected. I don't think that we want to remove the weight of that decision. So, I think I'd caution against broadening it too much.*"[23]

**103.** Nododd adroddiad Pwyllgor Safonau Ymddygiad Tŷ'r Cyffredin – "*The House of Commons standards landscape: how MPs' standards and conduct are regulated*" – fel a ganlyn:

> "*Concerns have been raised about whether the number of sitting days' suspension needed to trigger the recall process is appropriate; it has been suggested this should be increased from 10 to, say, 20 sitting days.*"[24]

**104.** Dywedodd yr Athro Jonathan Tonge wrth y Pwyllgor ei fod o'r farn bod y meini prawf yn San Steffan yn iawn, ond awgrymodd fod potensial ar gyfer y canlynol:

> "*… a more tapered area, rather than just this 10-day cliff edge, after which we're straight into recall petition and by-election territory, which is very, very difficult for the miscreant to survive. Some people may think, 'Well, that's fine, the miscreant shouldn't survive', but I do wonder, and I don't want to be facetious, whether a sin bin approach to the Parliament might possibly work, in which you have another level of sanctions that applies if someone's suspended for, say, between 10 and 30 days, which doesn't necessarily trigger a recall petition, and then, perhaps, after 30 days, recall petitions are considered. That's just a thought. I just think you go from one relatively light area of sanctions below 10 days, and then, after a 10 working*

[23] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 17 Mehefin 2024, paragraff 17
[24] The House of Commons standards landscape: how MPs' standards and conduct are regulated

*day suspension, you are deep into difficulty as a Member of Parliament, for sure, at Westminster."*[25]

**105.** Mae hyn yn adleisio'r casgliad canlynol yn adroddiad Tŷ'r Cyffredin:

> *"The Recall of MPs Act 2015 has had a significant impact on the operation of the parliamentary standards system. In making a recommendation on sanction in a Code of Conduct case, we are fully aware that suspension for 10 or more days, if approved by the House, may have a career-changing or career-ending impact on the Member concerned. We have no doubt that the Independent Expert Panel is similarly aware of the consequences of such a recommendation in ICGS cases."*[26]

**106.** Nododd y Pwyllgor y farn bod y trydydd sbardun ar gyfer adalw'n cael ei ystyried yn adlewyrchiad o'r dirwedd wleidyddol adeg pasio'r Ddeddf Adalw. Ers pasio bil o'r fath, bu nifer o faterion eraill ynghylch safonau, a allai fod wedi'u hadlewyrchu yn y fath fodd. Amlygodd adroddiad Tŷ'r Cyffredin y canlynol:

> *"… the lacuna in the statutory provision for recall of MPs arising from the fact that the Independent Expert Panel did not exist when the Recall of MPs Act 2015 was passed. As a result, a suspension agreed by the House following a recommendation of the IEP cannot trigger a recall petition in the same way that it would if the recommendation were by the Standards Committee (under the so-called "second recall condition" in the Act). The House has attempted to close this lacuna by altering its standing orders to require the Committee to make a report to the House recommending an identical sanction to one recommended by the IEP, within three sitting days of the IEP's report being published.173 The House's approval of that committee recommendation then triggers the recall procedure."*

**107.** Yn ôl tystiolaeth gan Nerys Evans, yn ei barn hi roedd yna ystyriaethau eraill ar gyfer sbarduno'r broses adalw:

> *"There should also be a discussion regarding behaviours such as sexual harassment, but the current complaints system is*

[25] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 10 Mehefin 2024, paragraff 5
[26] House of Commons Report – 'The House of Commons standards landscape: how MPs' standards and conduct are regulated'

*wholly inadequate and inappropriate to ensure complaints come forward, so that needs to be discussed in addition to the trigger for recall."*[27]

**108.** Ystyriodd y Pwyllgor hefyd a ddylai Aelodau sy'n 'croesi'r llawr' - h.y. gadael un blaid wleidyddol i ymuno ag un arall yn ystod Senedd fod yn destun proses adalw. Cafwyd ymatebion cymysg i'r mater hwn gan dystion, ond roedd y mwyafrif yn gwrthwynebu.

**109.** Roedd nifer sylweddol o ymatebion i ymgynghoriad y Pwyllgor yn awgrymu y dylai Aelod gael ei adalw os canfyddir ei fod wedi twyllo'r Senedd yn fwriadol. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn ystyried y mater hwn ochr yn ochr ag adalw, ac mae'n bwriadu cyflwyno adroddiad ar wahân ar y mater hwn.

## Pleidleisio ar adalw yn y Senedd

**110.** Rhoddodd y Pwyllgor ychydig o ystyriaeth i ba fath o bleidlais yn y Senedd y byddai ei hangen, o ganlyniad i un o'i adroddiadau, os caiff proses adalw ei sbarduno.

**111.** Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i'r Senedd bleidleisio ar argymhellion y Pwyllgor er mwyn iddynt ddod i rym. Mae hon yn bleidlais drwy fwyafrif syml. Mae cytuno ar adroddiad yn y Senedd yn gam pwysig yn y broses, gan fod hynny'n cynnig llwybr apelio pellach i'r Aelod dan sylw ynghylch unrhyw ganfyddiad gan y Pwyllgor neu'r Comisiynydd.

**112.** Dywedodd Joe Rossiter wrth y Pwyllgor y byddai o blaid mwyafrif syml, ond pwysleisiodd bwysigrwydd yr angen i ystyried y materion hyn ar draws y pleidiau:

*If it were to go to a vote, I would be in favour of a simple majority. However, I think it's not necessary that it goes to a whole-of-Senedd vote, because then I think you do get into that politicisation of—. You know, you'll be voting in party blocks based on someone's behaviour and you don't really want that. You want it to be a cross-party process, of which the committee is, and also, as a committee, you will have had the time to look into the details of the particular case and therefore come to a consensus position*[28]

[27] Tystiolaeth Ysgrifenedig, Nerys Evans
[28] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 3 Mehefin 2024, paragraff 28

## Barn y Pwyllgor

**113.** Nododd y Pwyllgor y sbardunau yn San Steffan ac mae wedi ystyried opsiynau o ran faint o fanylion am y sbardunau penodol y dylid eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth.

**114.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y fantais o nodi'n glir pryd y gellir sbarduno proses adalw. Hyd yma, mae hyn wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae hyn yn caniatáu i'r cyhoedd a gwleidyddion fod yn glir pa bryd y bydd y sancsiwn hwn yn berthnasol, ac yn lleihau'r risg o ymyrraeth wleidyddol a newid parhaus o'r pyst gôl.

**115.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai fod angen sbardun ar gyfer adalw mewn nifer o feysydd. Er enghraifft, mae'r Pwyllgor hwn wedi ymrwymo i sicrhau bod y Senedd yn sefydliad y mae pobl yn dymuno ymgysylltu ag ef, a gweithio ynddo. Mae hynny'n golygu bod mecanweithiau ar waith i fynd i'r afael ag ymddygiad amhriodol, a'i gwneud yn glir na chaiff ei oddef. Gallai cael hyn fel sbardun i adalw helpu i gyfleu'r neges hon yn glir.

**116.** Fodd bynnag, ar ôl ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law, mae gan y Pwyllgor rai pryderon o ran y sbardunau ar gyfer adalw'n cael eu gosod mewn deddfwriaeth, gan y gallai gyfyngu ar allu'r Senedd i ymateb i amrywiaeth o amgylchiadau a sefyllfaoedd wrth iddynt godi.

**117.** Ar hyn o bryd, mae'n bosibl y bydd y sbardunau yn system Tŷ'r Cyffredin yn awgrymu i'r cyhoedd y gellid ystyried bod achosion o dorri cosb ariannol yn fwy arwyddocaol na thoriadau eraill o'r Cod, megis aflonyddu rhywiol. Nid felly yw'r achos, ond fel y mae'r dystiolaeth yn ei awgrymu mae'n adlewyrchu'r hinsawdd wleidyddol ar adeg pasio'r ddeddfwriaeth.

**118.** Mae profiad Tŷ'r Cyffredin yn dangos bod materion yn codi (megis cyflwyno'r cynllun cwynion a chwyno annibynnol), ac y gall fod yn anodd diwygio'r ddeddfwriaeth i'w cynnwys. Mae gallu ymateb i bryderon am safonau ymddygiad mewn modd amserol yn hanfodol ar gyfer meithrin a chynnal hyder y cyhoedd mewn swyddogion etholedig.

**119.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod dedfryd carchar o 12 mis neu lai (yn y carchar neu wedi'i gohirio) yn sbardun priodol, a byddai'n dymuno bod yn unol â seneddau eraill yn yr ystyr y byddai hyn yn ysgogi proses adalw. O ystyried y diffyg pwerau ar hyn o bryd i'r Comisiynydd roi ymchwiliadau ar waith, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl i ddedfryd o garchar gael ei adrodd i'r Comisiynydd o dan adran 9 o Fesur y

Comisiynydd Safonau (yn ogystal, o bosibl, gan achwynwyr eraill). Byddai hyn yn caniatáu delio â'r mater drwy'r gyfundrefn safonau.

**120.** Nodwn fod y ddeddfwriaeth yn yr Alban yn ceisio lleihau hyd y ddedfryd ar gyfer gwaharddiad o 12 i 6 mis. Nid yw'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth benodol ar hyn, ond efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ystyried hyn ymhellach.

**121.** Roedd llawer o'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn awgrymu bod y ddarpariaeth 10 diwrnod eistedd yn rhy isel, o bosibl. Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod darparu 10 diwrnod eistedd yn ymddangos fel pwynt terfyn llym. Hyd yn hyn, y gwaharddiad isaf a roddwyd gan y Pwyllgor yw saith diwrnod, a'r uchaf yw 42 diwrnod. Mae rhestr o waharddiadau hyd yma yn atodiad A. Mae'n anodd dweud pa effaith y gallai sbardun ar gyfer proses adalw, ar ôl 10 diwrnod eistedd, fod wedi'i chael ar y cosbau hyn.

**122.** Mae achosion blaenorol sydd wedi dod gerbron y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn dangos bod angen hyblygrwydd wrth gymhwyso sancsiynau[29] yng ngoleuni'r mesurau lliniaru a ddarparwyd. Er mwyn gweithredu system safonau effeithiol a theg, mae angen bod nifer o opsiynau ar gael y gellir eu cymhwyso fel y bo'n briodol ac yn gymesur.

**123.** O ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai adalw fod yn sancsiwn ar ei ben ei hun, allai fod yn opsiwn sydd ar gael i'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am faterion o dan Reol Sefydlog 22 ei ddefnyddio.

**124.** Bu llawer o feirniadaeth o'r Senedd i'r perwyl nad yw'n gallu ymateb yn ddigon cyflym, ac felly mae'n ymddangos yn ddarbodus caniatáu i'r Senedd allu penderfynu beth allai sbarduno proses adalw. Byddai hyn yn negyddu'r angen i newid deddfwriaeth sylfaenol os ystyrir bod mater nas rhagwelwyd yn syrthio oddi fewn i derfynau adalw.

**125.** Pe bai sancsiwn ar ei ben ei hun yn cael ei fabwysiadu, mae'r Pwyllgor o'r farn y gellid ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor cyfrifol lunio canllawiau ar sancsiynau – ar ffurf 'canllawiau sancsiynau' – y byddai'r Senedd yn cytuno arnynt. Gallai'r canllawiau hyn gynnwys manylion penodol ynghylch pryd y byddai adalw'n cael ei gymhwyso, gan gynnwys amcangyfrif o nifer y diwrnodau ar gyfer gwaharddiad, cael dedfryd o garchar a thorri darpariaethau penodol, megis urddas a pharch a threuliau.

[29] Gweler Adroddiad 02-18 ac Adroddiadau 01-21 -04-21 o'r pumed Senedd

**126.** Gallai'r cyfryw ganllawiau, hefyd, ystyried twyll bwriadol fel sbardun ar gyfer proses adalw pe na bai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno neu ei phasio yn y maes hwn.

**127.** Byddai'r dull hwn – y gellid ei ystyried yn debyg i gynhyrchu rheoliadau ar gyfer deddfwriaeth – yn caniatáu i'r Senedd fod yn gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â'r senedd yn hytrach na dibynnu ar amser gyda rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth pe bai angen newidiadau.

**128.** Os bydd angen nifer penodol o ddiwrnodau wrth ddrafftio'r ddeddfwriaeth, byddai'r Pwyllgor yn cynghori'n gryf y dylai hyn fod yn fwy na 10 diwrnod, ac y dylid ystyried ei osod tua 21 diwrnod, a fyddai'n cyfateb i ataliad o dair wythnos.

**129.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai unrhyw adroddiad sy'n argymell adalw fod yn destun pleidlais fwyafrif yn y Senedd.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod deddfwriaeth yn cael ei drafftio i roi'r gallu i'r Senedd i adalw Aelod fel sancsiwn ar ei ben ei hun.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r ddeddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol, yn y Rheolau Sefydlog, i'r pwyllgor cyfrifol lunio canllawiau ar gymhwyso'r broses adalw, gan gynnwys materion a allai arwain at adalw'n awtomatig (os na chaiff ei gynnwys ar wyneb y bil). Dylai'r canllawiau hyn fod yn amodol ar bleidlais gan y Senedd.

# 6. Mecaneg y broses adalw

**130.** Cymerodd y Pwyllgor fodel San Steffan fel man cychwyn ar gyfer ei ystyriaeth. Mae Deddf Adalw Aelodau Seneddol 2015 yn nodi'r paramedrau canlynol ar gyfer deiseb adalw:

- Y sbardunau ar gyfer deiseb adalw (yr ymdrinnir â hwy ym mhennod pump);
- am faint o amser y mae deiseb adalw ar agor (chwe wythnos);
- y trothwy ar gyfer pleidleiswyr sy'n llofnodi'r ddeiseb (10 y cant); ac
- uchafswm nifer y gorsafoedd llofnodi dynodedig (hyd at 10).

**131.** Yn ogystal â'r paramedrau a sefydlwyd drwy fodel San Steffan, bu'r Pwyllgor, hefyd, yn ystyried y canlynol:

- Lefel y gefnogaeth yn y Senedd i roi proses adalw ar waith; a hefyd
- y pwynt terfyn ar gyfer system adalw.

## Hyd yr amser ar gyfer proses adalw

**132.** O dan broses San Steffan, mae deiseb adalw ar agor am chwe wythnos, gyda hyd at ddeg gorsaf llofnodi wedi'u dynodi ar draws etholaeth. Mae angen trothwy o ddeg y cant o bleidleiswyr sy'n llofnodi'r ddeiseb i sbarduno isetholiad.

**133.** Clywodd y Pwyllgor bryderon ynghylch hyd yr amser yr oedd deisebau ar agor. Fe wnaeth Clare Sim, Pennaeth Cymorth Aelodau yng Nghymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, nodi fel a ganlyn:

> "*One of the biggest challenges with recall petitions to date has been the length of time that the petition period lasts for. A six-week period is excessive. It's a massive administrative burden and cost to the public purse. I think evidence has shown, from Brecon and Radnorshire, from Peterborough, from Rutherglen and Hamilton West, that most of the thresholds have been met within the first two weeks of that period and that should be*

*taken into account in terms of the time frame of any recall petition in that sense as well."*[30]

**134.** Dywedodd y dylid dysgu gwersi yn sgil y baich gweinyddol y mae hyn yn ei greu.

**135.** Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cynhyrchu adroddiad ar y prosesau adalw blaenorol gyda nifer o argymhellion ar sut y gellid gwella'r broses hon. Mae'r argymhellion hyn yn cynnwys lleihau'r cyfnod arwyddo o chwe wythnos.[31] Dywedodd Clare Sim wrth y Pwyllgor bod eu barn nhw fel a ganlyn:

"... *as soon as that threshold is met that's when the petition should automatically end, rather than accumulating cost and administrative burden when the result is already known."*[32]

**136.** Ar y cyd â thystion, archwiliodd y Pwyllgor ddulliau eraill o gynnal proses adalw dros sawl wythnos, gan gynnwys ei chynnal ar un diwrnod. Dywedodd Clare Sim wrth y Pwyllgor mai her o gael proses deiseb adalw undydd fyddai'r amserlen sy'n gysylltiedig â hi (h.y. ni allech ei disgwyl o fewn dyddiau, fel sy'n wir am y deisebau adalw ar hyn o bryd). Dywedodd y byddai'n bwysig sicrhau bod digon o amser yn cael ei gynnwys, y gellir mynd i'r afael ag ef drwy roi'r canlynol ar waith:

"... *a stricter timetable as to how long you've got before the recall petition is triggered as to when it takes place, to give people the opportunity to do that, and it could then become a one-day poll, but there does need to be sufficient time before that to allow that to happen, if that was the case."*[33]

**137.** O ran ceisio sicrhau bod y broses mor syml a chyson â phosibl, nododd Colin Everett yr ystyriaeth honno i'r ochr weinyddol a hwylustod yr etholwr. Dywedodd y byddai angen iddo adlewyrchu etholiad arferol â phosibl, a hefyd:

"*People would expect the same opportunities to participate through postal or proxy, as well. We do have to go back to that fundamental principle: we are protecting the rights of the elector."*[34]

---

[30] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 19 Tachwedd 2024, paragraff 16
[31] The process to challenge a sitting MP: review of the 2019 recall petitions | Y Comisiwn Etholiadol
[32] (Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 19 Tachwedd 2024, paragraff 21)
[33] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 19 Tachwedd 2024, paragraff 33
[34] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 19 Tachwedd 2024, paragraff 35

**138.** Nododd y Pwyllgor y bydd y cynnig o dan Fil Graham Simpson ASA ar gyfer Senedd yr Alban, yn ei gwneud yn ofynnol i sicrhau canran o'r pleidleisiau mewn gwahanol rannau o ranbarth lle mae Aelod rhanbarthol yn destun deiseb adalw.

**139.** Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr opsiwn hwn yng ngoleuni'r etholaethau aml-aelod newydd sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer y Senedd. Nododd Colin Everett fel a ganlyn:

> *"… a constituency is a constituency. So, the fact we might have paired two parliamentary constituencies, they now become one constituency for the purposes of voting. So, if it's 10 per cent, it's 10 per cent in that whole area. I don't see how we can start to drill down. That makes it complicated and questions why that constituency was combined in the first place."*[35]

## Ariannu ac ymgyrchu dros adalw

**140.** Yn ystod deiseb adalw, mae'r cyfnod a reoleiddir yn cychwyn y diwrnod ar ôl i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin hysbysu'r Swyddog Deisebau bod yr amodau ar gyfer agor deiseb wedi'u bodloni. [36]

**141.** Daw'r cyfnod a reoleiddir i ben ar y diwrnod y bydd y Swyddog Deisebau yn hysbysu Llefarydd Tŷ'r Cyffredin o ganlyniad y ddeiseb. Os bydd y ddeiseb adalw'n cael ei therfynu'n gynnar, yna daw'r cyfnod a reoleiddir i ben ar y diwrnod y bydd y Llefarydd yn hysbysu'r swyddog deiseb i derfynu'r ddeiseb galw'n ôl. Gall unrhyw un wario £500 neu lai ar ymgyrchu mewn cyfnod ymgyrchu deiseb adalw, heb gofrestru. Rhaid i unrhyw un sy'n bwriadu gwario dros £500 yn y cyfnod a reoleiddir gofrestru gyda'r swyddog deiseb cyn gwario dros £500. Yr uchafswm y gall ymgyrchydd cofrestredig ei wario yw £10,000. Mae'r ddeddfwriaeth adalw'n cyfyngu ar y math o sylwebaeth ac ymgyrch a ganiateir ar y cam deiseb.

**142.** Cafodd y Pwyllgor glywed gan yr Athro Jonathan Tonge ei fod o'r farn bod y terfynau gwariant yn rhesymol er mwyn cael mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r ddeiseb. Dywedodd fod y ddeddfwriaeth yn atal y canlynol:

> *"…full-on campaigning, partly because the parties are limited in what they can do; all they can do is try and raise public awareness that the petition exists. But, as I say, they're not allowed to provide a commentary; you can't get the political-*

[35] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 19 Tachwedd 2024, paragraff 80
[36] Papur briffio ymchwil Tŷ'r Cyffredin: Adalw etholiadau

> *party-style 'x winning here' and lots of bar charts. They're not allowed to do that under the legislation, which I think is quite right in terms of preserving the secrecy of how the ballot is progressing."*[37]

**143.** Amlinellodd Michela Palese y cydbwysedd dyrys rhwng codi ymwybyddiaeth, a pheidio ag ymddangos fel ymgyrchu. Dywedodd:

> *"… one of the tensions that we've picked up in speaking to administrators in those areas that have run recall petitions— how to ensure that they're publicising it, ensuring that voters have as much information as possible as to the fact that a recall petition is taking place, where they can sign, what days, what time frames for that signing period, while also not crossing over into inadvertently campaigning for or against a specific outcome. One of the learnings that we do flag in our election reports following the recall petitions that have taken place is whether we should consider whether voters should have the option of, for example, signing an alternative signing sheet to indicate that they oppose the petition. That could have some benefits, but one of them would be to enable further awareness and information to be given around the recall petition process given that there isn't just one outcome, which is, if you're going to sign, you're signing for that person to be recalled."*[38]

## Ystyriaethau eraill

**144.** Mewn Seneddau blaenorol, mae Aelodau wedi 'croesi'r llawr' i ymuno neu eistedd ochr yn ochr â phlaid/grŵp gwleidyddol arall. Mae hyn yn golygu nad yw'r cymesuredd a sefydlwyd yn yr etholiad bellach yn cael ei adlewyrchu yng nghyfansoddiad y Senedd. Archwiliodd y Pwyllgor a ddylai hwn fod yn fater ar gyfer adalw.

**145.** Teimlai nifer o ymatebwyr unigol y dylai hyn fod yn sbardun ar gyfer adalw o dan y system bleidleisio newydd (o ystyried y bydd yr etholwyr yn pleidleisio dros y blaid wleidyddol, yn hytrach na'r unigolyn). Fodd bynnag roedd rhai ymatebion yn annog pwyll, yn enwedig gan y gallai hyn arwain at fwy o ddeisebau adalw, ac nid

[37] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 10 Mehefin 2024, paragraff 49
[38] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y cofnod y trafodion, 19 Tachwedd 2024, paragraff 83

oedd yn cyd-fynd â systemau llywodraethiant gwleidyddol eraill yn y Deyrnas Unedig:

**146.** Cododd ERS Cymru bryderon am y system etholiadol rhestr gaeedig sy'n cynnig 'diffyg dewis i bleidleiswyr', y mae'n dweud y câi ei waethygu pe bai Aelod yn newid pleidiau gwleidyddol yn ystod tymor Senedd, a bod yn rhaid cael gweithdrefnau caeth i ymateb i senario o'r fath. Fodd bynnag, mae'n nodi nad yw hyn yn nodwedd o'r broses adalw yn San Steffan, ac y dylid ystyried canlyniadau anfwriadol.

**147.** Nododd y Pwyllgor fod Bil Graham Simpson ASA yn Senedd yr Alban yn argymell y gallai ASAau nad ydynt yn cymryd rhan mewn trafodion am gyfnod o chwe mis heb reswm da, gael eu diswyddo.

**148.** Bu'r Pwyllgor yn ystyried a ddylai hwn fod yn fater ar gyfer adalw. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ysgrifenedig yn cytuno y dylai fod yn fater ar gyfer adalw, ond y byddai angen iddo fod yn achos amlwg o ddiffyg ymgysylltu, ac nid materion fel salwch. Tynnodd un ymatebwr sylw at y ffaith y gallai etholwyr ystyried bod treulio amser yn yr etholaeth, yn hytrach na mynychu cyfarfodydd ym Mae Caerdydd, yn gyfystyr â gwaith AS.

## Barn y Pwyllgor

**149.** Nododd y Pwyllgor y pryderon a godwyd ynghylch cynnal deisebau adalw o dan system San Steffan a'r angen i sicrhau nad oedd system yng Nghymru yn ailadrodd y problemau hyn.

**150.** O ystyried y broses dau gam yn San Steffan, mae'r Pwyllgor yn deall yr angen am ffenestr i'r ddeiseb gael ei llofnodi mewn nifer cyfyngedig o leoedd, a throthwy i'w gyrraedd. Fodd bynnag, o ystyried y dull a awgrymir ar gyfer Cymru – yn ei hanfod – o gyfuno'r ddau gam yn un, nid ydym yn ystyried bod y trefniadau hyn yn ymarferol, nac yn ddymunol.

**151.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y broses adalw'n cael ei chynnal un diwrnod ar ôl cyfnod rhybudd o chwe wythnos, yn unol â'r broses bresennol ar gyfer isetholiadau'r Senedd, neu Senedd y DU. Byddai hyn yn caniatáu digon o amser i roi'r trefniadau angenrheidiol ar waith. ac i nifer digonol o orsafoedd pleidleisio gael eu hagor ar draws etholaeth. Yn ddelfrydol, byddai'r trefniadau pleidleisio arferol o fewn etholaeth yn cael eu dilyn.

**152.** Byddai mabwysiadu'r dull hwn yn gwneud y broses mor syml â phosibl i gynifer o bobl â phosibl ei deall. Er na all argymell dilyn yr un broses adalw â San Steffan, na chynnal isetholiadau, mae'r Pwyllgor o'r farn y bydd cynnal proses

adalw ar un diwrnod yn ailadrodd llawer o'r elfennau allweddol, ac y bydd yn fuddiol ar gyfer ymgysylltu a'r nifer sy'n pleidleisio. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau y gallai hyn eu gosod i weinyddwyr etholiadol.

**153.** Nid yw'r Pwyllgor o'r farn y dylid gosod trothwy ar gyfer y nifer a bleidleisiodd neu'r ymatebion. O ystyried y bydd y cwestiwn yn fwy tebyg i refferendwm, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r broses hon fod yn unol ag etholiadau eraill. Bydd hyn, eto, yn helpu i sicrhau cysondeb ag arferion etholiadol sefydledig yng Nghymru.

**154.** Mae'r Pwyllgor o'r farn mai'r allwedd i lwyddiant y broses hon fydd sicrhau cyfathrebu da a negeseuon clir. Bydd natur disodli AS gyda'r person nesaf ar y rhestr, yn cyfyngu ar ymgyrchu gwleidyddol gan mai dim ond un blaid fydd yn ymwneud â hyn, fel arfer. Fodd bynnag, bydd yn bwysig sicrhau bod gwybodaeth am y broses a'r dewisiadau yn cael ei hanfon at bleidleiswyr cymwys, a'u bod yn ymwybodol o'r cyfle i leisio barn.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y broses adalw'n cael ei chynnal ar un diwrnod mewn proses debyg i is-etholiad, gyda digon o sylw i orsafoedd pleidleisio a dim trothwy o ran y nifer sy'n pleidleisio. Dylai pleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy fod ar gael fel rhan o'r broses hon.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â gweinyddwyr etholiadol – a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb – ar oblygiadau ymarferol cynnal pleidlais adalw ar un diwrnod ar draws nifer o orsafoedd pleidleisio mewn etholaeth.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r gymuned etholiadol i wneud yn siŵr bod y wybodaeth a anfonir ynghylch adalw'n hysbysu pleidleiswyr yn glir o'r rheswm dros adalw, a'r opsiynau sydd ar gael iddynt.

## Atodiad – Sancsiynau a osodwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad hyd yn hyn

| | | |
|---|---|---|
| Adroddiad 01-18<br>Cwyn a wnaed gan dri achwynydd yn ymwneud â recordiad ar dâp o'r Aelod gan ddefnyddio'r term hiliol "*coconut*".[39] | Torri paragraff 4(b) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd, sy'n cynnwys yr egwyddor y dylai Aelodau "bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal a chryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Cynulliad ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Cynulliad neu ar ei aelodau'n gyffredinol." | Canfyddwyd achos o dorri'r Cod ac y dylai'r Aelod gael ei wahardd o drafodion y Cynulliad am gyfnod o saith diwrnod. |
| Adroddiad 02-18<br>Hunan-atgyfeiriad at y Comisiynydd ar ôl ei gael yn euog o fethiant i ddarparu sampl anadl. | Torri paragraff 4(b) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd, sy'n cynnwys yr egwyddor y dylai Aelodau "bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal a chryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Cynulliad ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Cynulliad neu ar ei aelodau'n gyffredinol." | Canfyddwyd achos o dorri'r Cod ac y dylai'r Aelod gael ei wahardd o drafodion y Cynulliad am gyfnod o 21 diwrnod,<br>wedi'i ostwng i 14 diwrnod oherwydd yr hunan-atgyfeiriad. |
| Adroddiad 03-18<br>Cwyn a wnaed gan Glerc y Cynulliad bod yr Aelod mewn perthynas â'r prosiect swyddfa rhanbarthol hwn wedi methu ag arfer gofal neu oruchwyliaeth ddigonol; (arwyddwyd y brydles heb sicrhau arolygon ac amcangyfrifon angenrheidiol a | Defnydd amhriodol o adnoddau'r Cynulliad a dwyn anfri ar y Cynulliad. | Canfyddwyd achos o dorri'r Cod, a cherydd. Ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Aelod er mwyn canfod a fyddai'r arian a gollwyd yn cael ei ad-dalu – cadarnhawyd hynny |

[39] Roedd y gŵyn hon yn destun apêl o dan y Weithdrefn ar gyfer delio â chwynion yn erbyn Aelodau Cynulliad.

| | | |
|---|---|---|
| gwneud hynny yn erbyn cyngor proffesiynol – gwariant o bron i £10,000). | | cyn cyhoeddi'r adroddiad. |
| Adroddiad 01-19<br>Cwyn a wnaed gan dri achwynydd bod fideo a wnaed gan yr Aelod yn mynd yn groes i'r polisi urddas a pharch. | Torri paragraff 4(b) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd, sy'n cynnwys yr egwyddor y dylai Aelodau "bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal a chryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Cynulliad ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Cynulliad neu ar ei aelodau'n gyffredinol."<br><br>a'r Polisi Urddas a Pharch. | Canfyddwyd achos o dorri'r Cod, ac y dylai'r Aelod gael ei wahardd o drafodion y Cynulliad am gyfnod o 7 diwrnod. At hynny, argymhellodd y Pwyllgor fod y Cynulliad yn tynnu'r aelod dan sylw oddi ar y Pwyllgor. |
| Adroddiad 03-20<br>Cwyn gan Aelod arall ynghylch bod yr AS yn ymosodol yn gorfforol ac ar lafar tuag at Aelod arall (Mick Antoniw AS). | Paragraff 4(b) – Uniondeb/ Paragraff 4(g) – Arweiniad<br>Torri paragraff 4(b) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd, sy'n cynnwys yr egwyddor y dylai Aelodau "bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal a chryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Cynulliad ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Cynulliad neu ar ei aelodau'n gyffredinol."<br><br>a pharagraff 4g. Arweiniad: Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad a dangos esiampl. | Canfyddwyd achos o dorri'r Cod ac y dylid gwahardd yr Aelod o drafodion y Senedd am gyfnod o 21 diwrnod, a chael gwared ar fynediad i Dŷ Hywel a'r Senedd yn ystod y cyfnod hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| | a'r Polisi Urddas a Pharch. | |
| Adroddiadau 01-21 i 04-21 i'r pumed Senedd<br><br>Pedwar adroddiad yn ymwneud ag un Aelod.<br>▪ Adroddiad 01-21 – Camddefnyddio adnoddau'r Senedd, sef defnyddio adnoddau'r Senedd at ddibenion plaid wleidyddol ac etholiadol mewn perthynas ag isetholiad ward Grangetown Cyngor Caerdydd ym mis Tachwedd 2016, etholiadau lleol Cyngor Caerdydd ym mis Mawrth 2017.<br>▪ Adroddiad 02-21 – Methu â datgan budd perthnasol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Deisebau.<br>▪ Adroddiad 03-21 – Torri'r egwyddorion uniondeb, gonestrwydd ac arweinyddiaeth yn y Cod Ymddygiad trwy gynnal | Paragraff 10 o'r Cod Ymddygiad – defnyddio Adnoddau'r Cynulliad.<br><br>Paragraff 9 o'r Cod Ymddygiad – datgan buddiannau<br>Paragraffau 4b (yr egwyddor 'uniondeb'), 4e (yr egwyddor 'bod yn agored') a 4g (yr egwyddor 'arweiniad') o'r Cod. Canfu'r Comisiynydd hefyd ei fod wedi mynd yn groes i baragraff 15 o'r Cod Ymddygiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gydweithredu yn ystod pob cam o ymchwiliad i'w hymddygiad gan y Comisiynydd Safonau. | Heb osod sancsiynau gan na chafodd yr Aelod ei ailethol.<br>Byddai hyn wedi golygu ataliad o 42 diwrnod a oedd yn ymwneud â natur yr achosion o dorri amodau, ond hefyd ymgysylltiad yr Aelod â'r broses, a chyfanswm y cwynion. |

| | | |
|---|---|---|
| recordiadau cudd ar ystâd y Senedd.<br>▪ Adroddiad 04-21 – Camddefnyddio adnoddau'r Senedd, sef defnyddio cyfeiriad e-bost y Senedd i ddelio â materion sy'n ymwneud yn benodol â Chyngor Sir Caerdydd. | | |
| Nawfed Adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22<br>Fe wnaeth yr Aelod ymddwyn yn amhriodol tuag at ddwy fenyw ar noson allan ym mis Mehefin 2021. | Rheol 1 – Rhaid i Aelodau gynnal yr Egwyddorion Cyffredinol.<br>Rheol 3 – Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd sy'n dwyn anfri ar y Senedd neu ei<br>Haelodau, yn gyffredinol, i anfri.<br>Rheol 4 – Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn yn ddiangen, aflonyddu, bwlio na<br>gwahaniaethu<br>▪ Rheol 6 Rhaid i Aelodau beidio ag ymosod yn bersonol ar unrhyw un — mewn unrhyw un<br>gyfathrebiad (boed ar lafar, yn ysgrifenedig neu unrhyw ffurf electronig neu<br>gyfrwng arall) — mewn modd a fyddai'n cael ei ystyried yn ormodol neu'n gamdriniol gan<br>berson rhesymol a diduedd, o ystyried y cyd-destun y gwnaed y sylwadau ynddo. a | Canfyddwyd achos o dorri'r Cod, ac y dylai'r Aelod gael ei wahardd o drafodion y Senedd am gyfnod o 42 diwrnod. |

| | | |
|---|---|---|
| | Y Polisi Urddas a Pharch (yn enwedig ymddygiad amhriodol sy'n effeithio'n andwyol<br>ar urddas rhywun arall). | |

# Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **03 Mehefin 2024** | **Douglas Bain,**<br>Y Comisiynydd Safonau<br>**Joe Rossiter,**<br>Y Sefydliad Materion Cymreig |
| **10 Mehefin 2024** | **Jonathan Tonge,**<br>Prifysgol Lerpwl |
| **17 Mehefin 2024** | **Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Will Whiteley – Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio'r Senedd,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Ryan Price – Pennaeth Polisi'r Senedd,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Yr Athro Alistair Clark,**<br>Prifysgol Newcastle |
| **1 Gorffennaf 2024** | **Jane Dodds AS** |
| **14 Hydref 2024** | **Graham Simpson ASA** |
| **19 Tachwedd 2024** | **Michela Palese, Pennaeth Polisi,**<br>Y Comisiwn Etholiadol<br>**Colin Everett, Cadeirydd,**<br>Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru<br>**Clare Sim, Pennaeth Cymorth i Aelodau,**<br>y Gymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol<br>**Jessica Blair, Cyfarwyddwr,**<br>Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol<br>**Dr Nia Thomas, Swyddog Ymchwil ac Ymgyrchoedd,**<br>y Gymdeithas Diwygio Etholiadol |
| **02 Rhagfyr 2024** | **Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion** |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Gwledig,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Will Whiteley – Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio'r Senedd,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Ryan Price, Pennaeth Polisi'r Senedd,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **CFS 01** | Moira Owen |
| **CFS 02** | David Hazelden |
| **CFS 03** | Sarah Jones |
| **CFS 04** | Dawn Shenton |
| **CFS 05** | Angela Williams |
| **CFS 06** | Dawn |
| **CFS 07** | Peter Evans |
| **CFS 08** | Marc K |
| **CFS 09** | Ken Tucker |
| **CFS 10** | Lyndsey Brooks |
| **CFS 11** | Janet Roberts |
| **CFS 12** | S Lloyd |
| **CFS 13** | Dr Jonathan F Dean |
| **CFS 14** | Richard Houdmont |
| **CFS 15** | Aileen Russell |
| **CFS 16** | Louise Leyshon |
| **CFS 17** | Ian Hayes |
| **CFS 18** | Geraint |
| **CFS 19** | Harry Hayfield |
| **CFS 20** | Claire Wardle |
| **CFS 21** | Thomas Clarke |
| **CFS 22** | Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **CFS 23** | Joe Wade |
| **CFS 24** | Prif Gwnstabliaid |
| **CFS 25** | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| **CFS 26** | Meleri Tudur |
| **CFS 27** | Crynwyr Cymru |
| **CFS 28** | Y Sefydliad Ymchwil Democrataidd Cyfansoddiadol |
| **CFS 29** | Nerys Evans |
| **CFS 30** | Y Comisiwn Etholiadol |
| **CFS 31** | Trugaredd mewn Gwleidyddiaeth |
| **CFS 32** | Transparency International UK |